



**CRONFA BENSIWN
POWYS
PENSION FUND**

Gordalu Polisi Pensiwn

Gorffennaf 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Hanes y Polisi

Dyddiad y Polisi	Crynodeb o'r newid	Cyswllt	Fersiwn/ Dyddiad Gweithredu	Dyddiad Adolygu
2020	Fersiwn gychwynnol wedi'i gyhoeddi	Cronfa Bensiwn	1	2023
2023	Adolygiad Polisi	Cronfa Bensiwn	2	2026
2026	Adolygiad Polisi	Cronfa Bensiwn	3	2029

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Amcanion polisi
3. Pwrpas y polisi
4. Dyddiad effeithiol ac adolygiadau
5. Cwmpas
6. Rheoli gordaliadau pensiwn ar farwolaeth aelod o'r cynllun
7. Rheoli gordaliadau pensiynau plant nad ydynt yn dod i ben ar yr adeg briodol
8. Rheoli gordaliadau pensiwn ar sail gwybodaeth anghywir a ddarperir gan y Cyflogwr
9. Rheoli gordaliadau pensiwn o ganlyniad i'r gyfradd anghywir a ddefnyddir gan y Gronfa a gellir disgwyl yn rhesymol i'r aelod fod yn ymwybodol o'r gordaliad
10. Rheoli gordaliadau pensiwn o ganlyniad i'r gyfradd anghywir a delir gan y Gronfa ac ni all yr aelod fod wedi gwybod am y gordaliad
11. Disgresiwn i ddileu gordaliadau
12. Cyfnod adennill gordaliad
13. Hyd yr amser i adennill gordaliadau
14. Hawliadau o anallu i ad-dalu gordaliad
15. Awdurdod i ddileu gordaliadau
16. Atal gordaliadau
17. Gwybodaeth Ychwanegol
18. Cysylltiadau

1. Cyflwyniad

- 1.1 Dyma'r Polisi Gordalu Pensiwn ar gyfer Cronfa Bensiwn Powys, sy'n cael ei reoli gan Gyngor Sir Powys (yr Awdurdod Gweinyddu).
- 1.2 Gall gordaliadau pensiwn ddigwydd am amrywiaeth o resymau. Mae'n bwysig bod gan y Gronfa bolisi clir ynghylch sut mae gordaliadau pensiwn yn cael eu rheoli ar ôl iddynt gael eu nodi.
- 1.3 Mae Cronfa Bensiwn Powys yn cydnabod yr angen i gymryd dull rhagweithiol o nodi gweithgarwch a gordaliadau a allai fod yn dwyllodrus.

2. Amcanion Polisi

- 2.1 Nod yr amcanion polisi yw sicrhau bod y Gronfa'n cyflawni'r canlynol:
 - Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith sydd wedi'u cefnogi gan gyngor, polisïau a strategaethau priodol, er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau gwybodus wrth sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau statudol priodol.
 - Sicrhau bod y Gronfa'n cael ei rheoli mewn modd teg a diduedd, gan roi sylw i'r hyn sydd er lles pennaf rhanddeiliaid y Gronfa, yn enwedig aelodau'r cynllun a chyflogwyr.
 - Sicrhau bod yr incwm cywir yn cael ei gasglu a bod y buddion cywir yn cael eu talu i'r bobl gywir ar yr adeg gywir;
 - Nodi camgymiadau a'u cywiro cyn gynted â phosibl;
 - Cywiro gordaliadau gyda chydweithrediad yr unigolyn;
 - Annog unigolion i gymryd rôl weithredol wrth wirio slipiau cyflog/taliadau am gamgymeriadau amlwg; ac
 - Osgoi'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol (IDRP), lle bo'n bosibl, drwy reoli'r broses yn effeithiol.

3. Pwrpas y Polisi

- 3.1 Mae'r polisi wedi'i gynllunio i roi sicrwydd i randdeiliaid y Gronfa bod:
 - pob gordaliad yn cael ei drin mewn modd teg a diduedd;
 - y Gronfa yn ceisio adennill gordaliadau sydd wedi digwydd ond yn cydnabod y gallai fod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n

golygu na ellir adennill gordaliad, yn ymarferol, (yn gyfan gwbl neu'n rhannol); a

- bod ganddo gamau ar waith i atal a hefyd ymchwilio i weithgaredd a allai fod yn dwyllodrus.

4. Dyddiadau Dod i Rym ac Adolygiadau

- 4.1 Cymeradwywyd y polisi hwn gyntaf gan y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddi ar 26 Mehefin 2020 ac roedd yn weithredol o 1 Ebrill 2020.
- 4.2 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob tair blynedd, ac os oes angen, yn amlach i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gywir ac yn berthnasol.

5. Cwmpas

- 5.1 Mae'r polisi yn berthnasol i:
- Bob aelod a chyn-aelod, sy'n cynnwys aelodau credyd pensiwn a goroeswyr ac unrhyw fath arall o aelod, sydd wedi derbyn un taliad neu fwy o Gronfa Bensiwn Powys;
 - Ysgutorion Ystadau Cronfa Bensiwn Powys yr aelodau ymadawedig
 - Buddiolwyr aelodau Cronfa Bensiwn Powys lle mae'r buddiolwyr hynny wedi derbyn un taliad neu fwy o'r Gronfa honno
 - Gweinyddwyr y cynllun

6. Rheoli gordaliadau pensiwn ar farwolaeth aelod o'r cynllun

- 6.1 Yn ddealladwy, nid yw'r cynllun yn cael ei hysbysu o farwolaeth aelod-bensiynwr bob amser ar unwaith ac felly gan nad yw bob amser yn bosibl atal talu'r pensiwn ar ôl pwynt yn ystod mis y gyflogres, gall gordaliad ddigwydd.
- 6.2 Os bydd gordaliad pensiwn yn digwydd o ganlyniad i farwolaeth aelod o'r cynllun, bydd y Gronfa'n gyffredinol yn ceisio adennill gordaliadau sy'n werth mwy na £250 (gros) oni bai bod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n golygu na ellir adennill y gordaliad, yn ymarferol, (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Mae'r Gronfa'n ystyried nad yw'n economaidd adennill gordaliad sy'n werth llai na £250 yn achos marwolaeth aelod o'r cynllun.
- 6.3 Ymdrinnir â phob gohebiaeth ynglŷn â gordaliad mewn modd sensitif yn ystod y camau cyntaf oherwydd yr amgylchiadau sy'n ymwneud â sut y digwyddwyddodd y gordaliad.
- 6.4 Bydd y Gronfa'n paratoi anfoneb i adennill gordaliad sy'n fwy na £250 (gros) yn dilyn marwolaeth aelod o'r cynllun.

7. Rheoli gordaliadau pensiynau plant nad ydynt yn dod i ben ar yr adeg briodol

- 7.1 Mae gan blentyn cymwys fel y'i diffinnir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) 2013, yr hawl i dderbyn pensiwn hyd nes y bydd ei amgylchiadau'n newid ac nid yw bellach yn gymwys i dderbyn pensiwn gan y Gronfa.
- 7.2 Yn yr achosion hyn yr unigolyn sy'n derbyn y pensiwn sy'n gyfrifol am hysbysu'r Adran Bensiynau o newid mewn amgylchiadau er mwyn sicrhau bod y pensiwn yn dod i ben ar yr adeg briodol, byddai methu â gwneud hynny yn arwain at ordaliad.
- 7.3 Os yw pensiwn yn cael ei ordalu oherwydd hysbysiad hwyr o newid mewn amgylchiadau, bydd y Gronfa'n ceisio adennill gordaliadau'n gyffredinol sy'n werth mwy na £250 (gros) oni bai fod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n golygu na ellir adennill y gordaliad, yn ymarferol, (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Mae'r Gronfa'n ystyried nad yw'n economaidd adennill gordaliad sy'n werth llai na £250.
- 7.4 Bydd y Gronfa'n paratoi anfoneb i adennill y gordaliad sy'n fwy na £250 (gros) o ganlyniad i'r hysbysiad hwyr o'r newid mewn amgylchiadau. Bydd yr anfoneb yn cael ei hanfon at yr unigolyn y mae pensiwn y plentyn yn cael ei dalu i'w gyfrif banc.

8. Rheoli gordaliadau pensiwn yn dilyn gwybodaeth anghywir a roddwyd gan y cyflogwr mewn perthynas ag aelod o'r cynllun

- 8.1 Os yw pensiwn yn cael ei ordalu o ganlyniad i wybodaeth anghywir a roddir gan gyflogwr aelod o'r cynllun wrth iddo ymddeol, bydd y Gronfa'n ceisio adennill arian sy'n werth mwy na £250 oni bai fod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n golygu na ellir adennill y gordaliad, yn ymarferol, (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Mae'r Gronfa'n ystyried nad yw'n economaidd adennill gordaliad sy'n werth llai na £250 (gros) oherwydd yr amser gweinyddol sy'n gysylltiedig.
- 8.2 Bydd gordaliadau sy'n werth mwy na £250 yn cael eu hadennill yn llawn drwy bensiwn parhaus yr aelod o'r cynllun gan fod hyn yn caniatáu'r addasiad priodol ar gyfer treth. Bydd y pensiwn yn cael ei ostwng i'r lefel gywir ar gyfer y taliad pensiwn misol nesaf sydd ar gael ar ôl cyfnod rhybudd o 6 wythnos. Bydd yr aelod o'r cynllun yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig am y camgymeriad a'r camau sydd i'w cymryd.
- 8.3 Os nad oes pensiwn parhaus y gellir didynnu'r gordaliad ohono, bydd y Gronfa'n trefnu anfoneb i adennill y gordaliad sy'n werth mwy na £250.

9. Rheoli gordaliadau pensiwn o ganlyniad i'r gyfradd anghywir o bensiwn a dalwyd gan y Gronfa a gellir disgwyl yn rhesymol i'r aelod fod yn ymwybodol o'r gordaliad.

- 9.1 Mae sawl rheswm pam y gellid talu pensiwn ar gyfradd uwch anghywir. Mae'r rhesymau mwyaf cyffredin wedi'u manylu yn y tabl isod, ond dylid nodi nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

	Math o ordaliad	Sut mae gordaliad wedi digwydd
1	Gwall gweinyddol wrth greu cofnod cyflogres	Cyfradd anghywir (gor-ddatganedig) o bensiwn wedi'i mewnbynnu i greu cofnod cyflogres ond hysbyswyd yr aelod yn ysgrifenedig o'r gyfradd gywir o bensiwn i'w thalu.
2	Hawl i bensiwn yn dod i ben	Peidio â hysbysu nad yw pensiwn plentyn bellach yn daladwy gan fod y plentyn wedi cyrraedd 18 oed neu'n hŷn ac nad yw bellach mewn addysg amser llawn neu hyfforddiant galwedigaethol.
3	Hawl i gyfradd pensiwn gyfredol yn dod i ben	Gorchymyn Rhannu Pensiwn neu Orchymyn Clustnodi yn cael ei dderbyn ar ôl y dyddiad gweithredu sy'n golygu bod y pensiwn wedi'i ordalu ers y dyddiad gweithredu hwnnw
4	Methiant i newid cofnod y gyflogres/gostyngiad mewn pensiwn	Methiant i newid o'r pensiwn dibynyddion tymor byr uwch i'r gyfradd hirdymor is.
5	Methiant i newid cofnod y gyflogres/gostyngiad mewn pensiwn	Methiant i weithredu gostyngiad i bensiwn oherwydd gorchymyn Addasiad Yswiriant Gwladol ar Oedran Pensiwn y Wladwriaeth

- 9.2 Os yw'r aelod o'r cynllun wedi cael gwybod am y gyfradd bensiwn gywir yn ysgrifenedig a'i fod yn derbyn swm uwch, gellir disgwyl yn rhesymol i'r aelod fod yn ymwybodol ei fod yn cael ei ordalu gan fod yr aelod o'r cynllun wedi cael gwybod am y gyfradd gywir yn ysgrifenedig.
- 9.3 Felly, yn gyffredinol, bydd y Gronfa yn ceisio adennill arian sy'n werth mwy na £250 gros oni bai fod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n golygu na ellir adennill y gordaliad, yn ymarferol, (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Mae'r Gronfa'n ystyried nad yw'n economaidd adennill gordaliad sy'n werth llai na £250 oherwydd yr amser gweinyddol sy'n gysylltiedig.
- 9.4 Bydd y swm yn cael ei adennill o bensiwn parhaus yr aelod o'r cynllun gan fod hyn yn caniatáu'r addasiad priodol ar gyfer treth. Bydd y pensiwn hefyd yn cael ei ostwng i'r lefel gywir ar gyfer y taliad pensiwn misol nesaf sydd ar gael ar ôl cyfnod rhybudd o 6 wythnos. Bydd yr aelod o'r cynllun yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig am y camgymeriad a'r camau sydd i'w cymryd.

- 9.5 Pan nad oes pensiwn parhaus i ddidynnu'r swm a ordalwyd ohono, trefnir anfoneb gan y Gronfa i adennill y gordaliad os yw'n werth mwy na £250.

10. Rheoli gordaliadau pensiwn ar sail y gyfradd anghywir o bensiwn a delir gan y Gronfa a gellir dweud na all yr aelod fod wedi gwybod am y gordaliad.

- 10.1 Mae'r tabl isod yn dangos sut y gall gordalu pensiwn aelod ddigwydd heb i'r aelod fod yn ymwybodol. Dylid nodi nad yw'r tabl isod yn rhestr gynhwysfawr;

	Math o ordaliad	Sut mae gordaliad wedi digwydd
1	Gwall gweinyddol wrth gyfrifo a hysbysu hawl buddion (yn cynnwys pensiynau dibynyddion)	Cyfradd pensiwn anghywir (gor-ddatganedig) yn cael ei thalu a'r aelod yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig am y gyfradd anghywir o bensiwn i'w thalu.
2	Lefel anghywir o Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP) yn cael ei thalu	Mae gwybodaeth newydd gan CThEF yn arwain at gyfradd ddiwygiedig o Isafswm Pensiwn Gwarantedig i'w defnyddio sydd, oherwydd y gwahanol ffyrdd y mae cynnydd mewn costau byw yn cael eu cymhwyso i'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig a'r swm dros ben yr Isafswm Pensiwn Gwarantedig, yn golygu y dylai lefel is o gynnydd mewn pensiynau fod wedi cael ei thalu. Mae'n cynnwys hysbysiad sy'n deillio o ran o'r terfyn i gontractio allan a'r ymarfer cysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig dilynol (gweler nodyn 11.2 isod)
3	Cynnydd mewn Pensiynau	Cynnydd mewn Pensiynau wedi'i gymhwyso'n anghywir i elfennau pensiwn mewn taliad.

- 10.2 Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Gronfa yn gyffredinol yn ceisio adennill arian sy'n werth mwy na £250 gros oni bai fod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n golygu na ellir adennill y gordaliad, yn ymarferol, (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Mae'r Gronfa'n ystyried nad yw'n economaidd adennill gordaliad sy'n werth llai na £250 oherwydd yr amser gweinyddol sy'n gysylltiedig.
- 10.3 Bydd y swm yn cael ei adennill o bensiwn parhaus aelod y cynllun gan fod hyn yn caniatáu'r addasiad priodol ar gyfer treth. Bydd y pensiwn hefyd yn cael ei ostwng i'r lefel gywir
- 10.4 Pan nad oes pensiwn parhaus i ddidynnu'r swm a ordalwyd ohono, trefnir anfoneb gan y Gronfa i adennill y gordaliad os yw'n werth mwy na £250.

11. Disgresiwn i ddileu gordaliadau

- 11.1 Ar gyfer pob senario a grybwyllir uchod, mae gan Swyddogion y gallu i arfer disgresiwn yn achos rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eithriadol ac i sicrhau nad oes unrhyw unigolyn yn cael ei drin yn annheg. Os oedd mynd ar drywydd adennill gordaliad yn achosi trallod sylweddol a/neu os oes rhesymau cyfreithiol pam na ellir adennill y gordaliad (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) byddai hyn yn cael ei ystyried fel y byddai cost-effeithiolrwydd adennill. Bydd pob cais a wneir i ddileu gordaliad (yn llawn neu'n rhannol) yn cael ei ymchwilio fesul achos a bydd yr unigolyn priodol a restrir yn adran 15 yn gwneud y penderfyniad terfynol yn dibynnu ar y swm a allai gael ei ddileu.
- 11.2 Pan fo gordaliad wedi digwydd o ganlyniad i'r ymarfer cysoni Isafwm Pensiwn Gwarantedig, yna mae'r Gronfa yn dilyn y dull cenedlaethol a awgrymir o beidio ag adennill unrhyw ordaliad ond cywiro taliadau pensiwn yn y dyfodol.

12. Cyfnod Adennill Gordaliad

- 12.1 Yn gyffredinol, bydd y Gronfa yn ceisio adennill gordaliadau a ganfuwyd o fewn y 6 blynedd diwethaf yn unol â Deddf Cyfyngiadau 1980, oni bai fod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n golygu na ellir adennill y gordaliad, yn ymarferol, (yn gyfan gwbl neu'n rhannol).
- 12.2 Dylid cofio, pan fo'r Gronfa yn ceisio adennill gordaliadau, efallai y bydd heriau yn cael eu cynnig ynghylch pam na ddylid adennill y gordaliad (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Bydd angen ystyried y rhain fesul achos ac, os ydynt yn llwyddiannus, gallant effeithio ar allu'r Gronfa i adennill y gordaliad (yn gyfan gwbl neu'n rhannol).
- 12.3 Os bydd gordaliad mwy, yna mae'r broses ganlynol yn berthnasol:

Os oes pensiwn parhaus, bydd Swyddogion yn cysylltu â'r pensiyner ac yn cynghori y bydd y Gronfa yn ceisio adennill y gordaliad. Lle bo'n bosibl, cytunir ar gynllun ad-dalu. Byddai hyn fel arfer yn cynnwys ad-daliad trwy randaliadau a gymerir yn uniongyrchol o'r swm pensiwn diwygiedig am gyfnod o amser y cytunwyd arno.

Os na ellir dod i gytundeb, gall Swyddogion gynnig ad-daliad rhannol a dileu cyfran o'r gordaliad.

Os nad oes pensiwn parhaus, ar ôl ystyried yr achos, gellir dileu'r swm.

13. Hyd yr Amser i Adennill Gordaliadau

- 13.1 Bydd y Gronfa yn caniatáu i ordaliad pensiwn gael ei adennill dros yr un cyfnod o amser ag y digwyddodd y gordaliad. Er enghraifft, os gwnaethpwyd gordaliadau am gyfnod o 3 mis, bydd y cyfnod adennill i ad-dalu'r gordaliad yn 3 mis.

Fodd bynnag, gall y Gronfa, yn ôl ei disgresiwn, ganiatáu ad-daliad dros gyfnod hirach neu fyrrach yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn.

14. Honiadau o anallu i ad-dalu gordaliad

- 14.1 Yn unol â'r canllawiau a nodir yn nogfen Trysorlys EF "Managing Public Money", lle mae'r aelod wedi dangos y byddai adennill gordaliad yn achosi caledi, byddwn yn ystyried y canllawiau hynny ac a ddylid hepgor adennill y taliad. Rhaid ategu unrhyw bledion caledi o'r fath gan dystiolaeth resymol y byddai adennill y gordaliad yn niweidiol i les (lles ariannol neu feddyliol) yr unigolyn neu eu teulu.

Bydd manylion pellach am y weithdrefn a'r dystiolaeth ofynnol yn cael eu darparu ar gais. Yn yr achosion hyn, byddwn yn ymgynghori â'r aelod o'r cynllun a lle bo hynny'n briodol, bydd y Gronfa yn gofyn am gyngor cyfreithiol arbenigol.

Bwriad y dull hwn yw lleihau nifer yr Anghydfodau Mewnol ac atgyfeiriadau at yr Ombwdsmon Pensiynau.

15. Awdurdod i ddileu gordaliadau

- 15.1 Bydd y Gronfa yn cymhwyso'r lefelau awdurdod canlynol wrth ddileu gordaliadau:

Cyfanswm Gwerth Gros y gordaliad *	Awdurdod i ddileu gordaliad
Dim mwy na £250.00 ar unrhyw fath o ordaliad	Dileu'n awtomatig
Hyd at ddim mwy na £1,000	Rheolwr Gweinyddu Pensiynau
Rhwng £1,000 a £5,000	Rheolwr y Gronfa Bensiwn
Rhwng £5,000 a £25,000	Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151
Dros £25,000	Deiliad Portffolio ar gyfer Cyllid

* Yn amodol ar adroddiad llawn sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gynhyrchir gan Swyddogion y Gronfa

16. Atal gordaliadau

- 16.1 Mae'r Gronfa yn adolygu ei phrosesau yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg y bydd gordaliadau'n digwydd.
- 16.2 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei chynnal bob dwy flynedd; mae'n cymharu ffeiliau pensiynwyr â chronfa ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer unigolion ymadawedig ac mae'n amlygu cydweddiadau er mwyn ymchwilio iddynt. Mae Cronfa Bensiwn Powys yn cymryd rhan weithredol yn y fenter hon.

Mae'r Gronfa hefyd yn defnyddio'r system genedlaethol "Dywedwch Wrthym Unwaith" sy'n rhoi cyfle i gynrychiolwyr personol aelodau ymadawedig hysbysu am farwolaeth ar adeg cofrestru.

- 16.3 Mae Cronfa Bensiwn Powys yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gwiriadau bywyd cenedlaethol a thramor i sicrhau mai dim ond pensiynau cyfreithlon sy'n cael eu talu ac i leihau'r tebygolrwydd o weithgarwch twyllodrus.
- 16.4 Cynhelir adroddiad o bryd i'w gilydd ar y system weinyddu pensiwn i adnabod unigolion sy'n derbyn pensiwn plentyn, ac yna cynhelir ymchwiliadau pellach i sicrhau bod ganddynt hawl i dderbyn pensiwn.
- 16.5 Mae Cronfa Bensiwn Powys yn cynnwys nodiadau atgoffa yn ei gohebiaeth bod yn rhaid i'r Gronfa gael ei hysbysu am newidiadau mewn amgylchiadau neu farwolaeth aelod o'r cynllun. Mae'r Gronfa hefyd yn ymchwilio i unrhyw slipiau cyflog pensiynwyr a ddychwelir, gohebiaeth a thaliadau pensiwn a ddychwelir gan fanciau a chymdeithasau adeiladu, er mwyn sicrhau lles yr aelod o'r cynllun ac i ddiogelu taliad arian y Gronfa.
- 16.6 Mae gan swyddogion y gronfa system gadarn ar waith ar gyfer nodi newidiadau i'r gyflogres y mae angen eu prosesu ar gyfer mis cyflogres penodol. Mae'r broses yn ymgorffori terfynau amser cyflogres ac yn sicrhau bod newidiadau yn cael eu gwneud yn gywir ac yn brydlon. Byddai hyn mewn amgylchiadau fel newid o bensiwn dibynnydd tymor byr i bensiwn tymor hir.

17. Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r Ombwdsmon Pensiynau wedi cynhyrchu taflen ffeithiau ddefnyddiol ar ordaliadau, a allai fod yn ddefnyddiol i aelodau'r cynllun. Mae'r daflen i'w gweld ar [wefan](#) yr Ombwdsmon Pensiynau.

18. Cysylltiadau

- 18.1 Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau, ymholiadau neu sylwadau ar y ddogfen hon at:

Y Rheolwr Gweinyddu Pensiynau
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Ffôn: 01597 826343

e-bost: pensions@powys.gov.uk